

Ymgorffori hawliau plant mewn ymarfer bob dydd

Mae Deborah Ivins a'i thîm o Cwtch Pentrebaen, un o Gylchoedd Meithrin Mudiad Meithrin, yn rhannu eu barn ar archwilio Hawliau Plant. Yn ddiweddar, cafodd Cwtch Pentrebaen y cyfle i arbrofi gyda'r pecyn adnoddau Hawliau Plant Blynnyddoedd Cynnar; pecyn a gynhyrchir yn arbennig gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.



O'r eiliad maen nhw'n cael eu geni mae gan bob plentyn hawliau penodol. Mae'r hawliau yn rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac yn amlinellu'r pethau mae angen ar blant i dyfu'n hapus, yn iach, ac yn ddiogel. Mae dysgu am yr hawliau yma yn helpu plant i ddeall y ffordd dylen nhw gael eu trin gan yr oedolion o'u cwmpas, ac yn rhoi pŵer iddyn nhw weithredu os ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw wedi cael eu trin yn annheg. Mae yna lot o ffyrdd creadigol i helpu'r plant ieuengaf i fwynhau dysgu am eu hawliau, ac i ddod yn gyfarwydd gyda'r cysyniadau ehangach tu ôl yr hawliau hynny. Rydw i eisiau i bob plentyn yng Nghymru i fod yn rhugl yn iaith eu hawliau, a dydy hi byth yn rhy gynnar iddyn nhw i ddechrau dysgu amdanynt.

Sally Holland

yw Gyn-Comisiynydd Plant Cymru.

Wrth gyrraedd sesiwn Cwtch Pentrebaen mae'r plant yn cael eu croesawu gan aelod o staff, sy'n gofyn sut ydyn nhw neu sut maen nhw'n teimlo. Mae gennym gân sy'n gofyn plant sut y maen nhw'n teimlo, a cherrig hwyliu gydag wynebaw ac emosiynau, a gall y plant edrych arnynt, trafod neu ddewis carreg sy'n cyfleu sut maen nhw'n teimlo. Pe welir aelod o staff fod plentyn yn teimlo'n drist, yn gyffrous, yn bryderus neu'n hapus





iawn, bydden nhw'n cyfarch y plentyn yn y modd priodol, ac yn siarad â nhw i ganfod pam eu bod yn teimlo felly, os yw'r plentyn yn gyfforddus ac yn hapus i drafod.

Rydym yn lleoliad yng Nghaerdydd sy'n llawn amrywiaeth. Rydym yn dathlu'r amrywiaeth honno drwy gydnabod bod ein plant i gyd yn wahanol, a'r ffaith eu bod yn dod o amryw o gartrefi a chefnidiroedd, ac rydym yn annog y plant a'u teuluoedd i rannu eu profiadau a'u diwylliannau ag eraill.

Mae rhieni a phobl broffesiynol o'n hardal leol wedi ymweld â'r lleoliad i rannu eu gwybodaeth, profiadau a diwylliannau. Daeth rhiant o gefndir Sikh i siarad efo'r plant am wisgoedd, bwyd a gwyliau traddodiadol. Rydym yn dathlu diwylliant Cymraeg traddodiadol yn ddyddiol drwy'r iaith Gymraeg, caneuon Cymraeg, trwy ddathlu ein cynefin a chymryd rhan yn yr Eisteddfod leol a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.



Mae ein staff a'n rhandeiliaid yn ymwybodol bod gan blant hawliau, ac mae'r staff yn deall y pwysigrwydd o sicrhau bod y plant hefyd yn deall bod ganddyn nhw hawliau. Mae nifer o'r plant yn anymwybodol bod ganddyn nhw hawliau, a beth yw'r hawliau hynny. Mae'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod holl blant ein lleoliad yn hapus ac yn ddiogel, a'n bod ni'n diwallu gofynion iechyd y plant tra eu bod nhw gyda ni.






Ers i ni gymryd rhan ym mheilol y gweithgareddau Hawliau Plant Blynnyddoedd Cynnar, a gafodd eu harddangos gan swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, rydyn ni wedi bod yn llawer mwy ymwybodol o hawliau'n plant ni.

Un gweithgaredd mae'r plant yn ei fwynhau ydy pan fod un plentyn yn gorwedd ar y llawr, ar ddarn mawr o bapur leinin, ac mae'r plant eraill yn tynnu llun o'i amlinelliad. Rydym yn cynnal y gweithgaredd hwn y tu allan, fel bod gan y plant lle i symud o gwmpas a gweithio gyda'i gilydd, gan ddefnyddio pinnau felt, creonau a sialc. Ar ôl i ni gwblhau amlinelliad y plentyn, rydym yn gofyn i'r plant ystyried beth sydd angen ar blentyn i fod yn ddiogel, yn hapus ac yn iach.

Mae'r plant yn rhedeg ar hyd y lle i ganfod gwrthrychau fel ffrwythau a llysiau iachus. Maen nhw'n casglu tai doliau bach, neu ffigyrau dynion tân a heddweision sy'n cynrychioli'r bobl a'r llefydd sy'n eu cadw nhw'n ddiogel. Rhoddir lluniau o'u ffrindiau a theuluoedd a llyfrau sy'n gwneud nhw'n hapus o fewn yr amlinelliad hefyd.

Trafodir yr eitemau, ac mae'r plant yn mynegi sut deimlad ydy bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.

O fewn y Cylch rydym yn defnyddio mapiau meddwl, ac yn datblygu'r rheini a'u harchwilio gyda'r plant, yn seiliedig ar eu gwybodaeth, syniadau a chwestiynau ar bwnc neu destun. Mae arsylwadau a chwestiynau'r plant yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllunio, ac felly hefyd y gweithgareddau rydym yn eu cynnal.





Cynhelir cyfarfodydd staff lle rydym yn trafod diddordebau, cyfaredau ac 'obsesiynau' y plant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn caniatáu i staff adlewyrchu ar eu hymarferiad, a chynllunio camau nesaf gydag anghenion a diddordebau'r plant yn ganolog i'n gweithgarwch, ac rydym yn adlewyrchu ar ein hymarferiad yn gyson. Rhoddir cyfleoedd i'r plant adlewyrchu ar eu dysg drwy drafod beth maent wedi ei wneud, edrych ar luniau neu wyllo fideos.

Mae yna wastad ystod eang o adnoddau i'r plant eu dewis. Os nad ydyn nhw am gymryd rhan mewn gweithgaredd, fe'u hanogir i ddewis rhywbeth arall, i wyllo'r lleill, neu gallant ddewis gwneud rhywbeth arall. Parchir penderfyniad y plentyn bob tro.

Teimlwn fod cyflwyno hawl y plant i fod yn hapus, ddiogel ac iach yn Cwtch Pentrebaen, gartref ac yn eu cymunedau, yn sail dda iawn i'w dyfodol. Credwn ein bod ar y trywydd i sicrhau "unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas".

